**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a’r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifenydd y Cabinet Dros Addysg**

25 Mehefin 2025

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2025 ("Rheoliadau 2025") yn gwneud darpariaeth i ysgolion gael diwrnod hyfforddiant mewn swydd (HMS) ychwanegol yn y flwyddyn ysgol 2025-2026 er mwyn hyfforddi neu baratoi a chynllunio mewn perthynas â diwygiadau addysg allweddol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gwneud darpariaeth ynghylch hyd y diwrnod ysgol, ac i ysgolion gyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

3.2 Gwnaed Rheoliadau 2003 o dan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996.

3.3 Mae rheoliad 4(1) o Reoliadau 2003 yn darparu bod pob diwrnod pan fydd ysgol yn cyfarfod i'w rannu'n 2 sesiwn sydd i'w gwahanu gan egwyl yng nghanol y dydd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn golygu nad yw hyn yn ddymunol. Mae rheoliad 4(2) o Reoliadau 2003 yn darparu bod yn rhaid cynnal o leiaf 380 o sesiynau mewn ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin).

3.4 Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwrnodau hyfforddi ychwanegol mewn ysgolion.

3.5 Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio Rheoliadau 2003 ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r system addysg yng Nghymru wedi wynebu heriau sylweddol dros y 4 blynedd diwethaf oherwydd y tarfu a achoswyd i addysg o ganlyniad i bandemig Covid-19. Yn ogystal, cyflwynwyd diwygiadau sylweddol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ynghyd â chwricwlwm newydd i Gymru. Mae angen cryfhau'r ymdrechion ar draws y system i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru, y diwygiadau i'r system ADY, a sicrhau tegwch mewn addysg, a chryfhau'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r goblygiadau. Rydym yn cydnabod bod angen rhoi amser i'r holl ymarferwyr allu gwneud hyn.

4.2 Cyflwynwyd diwrnodau HMS gyntaf yn yr 1980au ac maent yn gyfres o 5 diwrnod pan nad yw dysgwyr yn mynd i'r ysgol, ond pan fydd yn ofynnol i'r staff fod yn bresennol ar gyfer hyfforddiant. Mae'r hawl i 5 diwrnod nad ydynt yn ddiwrnodau addysgu/diwrnodau HMS (ar gyfer athrawon a gyflogir yn llawn amser) yn rhan o ddogfen statudol Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), sy'n nodi cyfanswm nifer y diwrnodau y mae'n rhaid i athro fod ar gael i weithio yn ystod blwyddyn ysgol, gan gynnwys nifer y diwrnodau sy'n gorfod bod yn ddiwrnodau addysgu ac yn ddiwrnodau HMS pan nad ydynt yn addysgu.

4.3 Yn 2019, cyflwynwyd diwrnod HMS ychwanegol am 3 blynedd ysgol i helpu ymarferwyr i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Rydym yn cydnabod bod pandemig Covid-19 wedi effeithio'n drwm ar y diwrnodau ychwanegol hyn, ac yn aml roedd angen canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ymarferwyr i addysgu o bell neu mewn ffordd gyfunol. Fodd bynnag, mae'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y pandemig yn parhau i helpu ymarferwyr i gyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig yng nghyd-destun gwella presenoldeb a datblygu ysgolion bro.

4.4 Yn dilyn cyfnod ymgynghori pellach, ym mis Ionawr 2023 gosododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023. Roedd y Rheoliadau yn darparu ar gyfer diwrnod HMS ychwanegol arall ar ben y 5 diwrnod HMS hynny y darparwyd ar eu cyfer yn nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) am 3 blynedd ysgol arall (2022/2023, 2023/2024 a 2024/25). Ar gyfer y blynyddoedd ysgol hynny roedd cyfanswm o hyd at 6 diwrnod HMS ar gael.

4.5 Mae adroddiadau diweddar yn galw am amser ychwanegol i ymarferwyr ymgymryd â hyfforddiant neu i gynllunio a pharatoi ar gyfer gweithredu ein diwygiadau allweddol. Mae'r adroddiadau hynny'n cynnwys:

- Ymchwil i weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: adroddiad Cam 2, Medi 2023
- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliadau ag ysgolion, Haf 2024
- Adolygiad strategol o strwythur cyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru, 2024

4.6 Pwrpas Rheoliadau 2025 yw caniatáu i ysgolion a gynhelir ddefnyddio hyd at 2 sesiwn ysgol (sy'n cyfateb i 1 diwrnod ysgol) yn y flwyddyn ysgol

2025/2026 at ddibenion hyfforddi neu baratoi a chynllunio mewn perthynas ag un neu fwy o'r canlynol:

- lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol;
- gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar gyfer disgyblion yn yr ysgol;
- y cwricwlwm sydd i’w ddarparu yn yr ysgol o dan Rannau 2 a 3 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;
- y trefniadau asesu sydd i’w gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

4.7 Bydd hyn yn galluogi ysgolion i ymgysylltu'n briodol â'r materion hyn ac i fynd i'r afael ag anghenion datblygu eu hysgolion a'u staff yn unol â hynny.

4.8 Mae rhagor o ymchwil annibynnol wedi'i gomisiynu i ddeall effaith y diwrnod HMS ychwanegol; mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Plant yng Nghymru i ddeall yr effaith ar ddysgu, ac ar hyn o bryd mae Estyn yn cynnal adolygiad thematig ar Addysgu yng Nghyd-destun Cwricwlwm Cymru. Felly, mae Rheoliadau 2025 yn darparu ar gyfer diwrnod HMS ychwanegol am flwyddyn ysgol arall tra caiff rhagor o dystiolaeth ei chasglu ar effeithiolrwydd y diwrnod ychwanegol a'r effaith ar ddysgu. Caiff y gwaith ymchwil hwn ei gwblhau ym mis Ionawr 2026.

## 5. Ymgynghori

5.1 O ystyried natur y newid, sef caniatáu i ddiwrnod HMS ychwanegol barhau am flwyddyn ysgol arall, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal. Mae'r diwrnod HMS ychwanegol wedi bod yn ei le ers 6 blynedd; ystyrir felly bod y diwrnod HMS ychwanegol arfaethedig wedi ennill ei blwyf, a bod pobl yn deall pam mae'n digwydd. Nid yw'r cynnig i ddarparu un diwrnod HMS ychwanegol yn cael ei ystyried yn ddadleuol, felly.

5.2 Er nad oes dyletswydd statudol i ymgynghori cyn gwneud Rheoliadau 2025, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol, Comisiynydd Plant Cymru a rhanddeiliaid eraill fel Estyn ac undebau addysgu, sydd i gyd yn cytuno bod angen amser ychwanegol i'n hymarferwyr addysg gael hyfforddiant neu gynllunio a pharatoi mewn perthynas â'n diwygiadau helaeth. Bydd y diwrnod HMS ychwanegol yn cefnogi ein hymarferwyr i wella'r broses addysgu a dysgu er budd ein dysgwyr, ac mae'n unol â'n blaenoriaeth i wella safonau ysgolion.

5.3 Bydd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal ar gynigion tymor hwy unwaith y bydd y dystiolaeth bellach ar gael, fel y'i hamlinellir ym mharagraff 4.8.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

6.1 Rydym yn cynnig darparu amser ychwanegol i gefnogi ymarferwyr a sicrhau bod ganddynt amser i gael hyfforddiant neu i gynllunio a pharatoi mewn perthynas â'n diwygiadau a'n blaenoriaethau addysg allweddol. Nodwyd yr opsiynau canlynol:

Opsiwn 1: Parhau fel yr ydym. Byddai hyn yn golygu parhau â 5 diwrnod HMS a bod ymarferwyr yn ymgymryd â'u dysgu proffesiynol yn ystod yr amser sydd ar gael ar hyn o bryd.

Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau 2003 i ddarparu ar gyfer 1 diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ysgol 2025/2026 a phob blwyddyn ysgol wedi hynny.

Opsiwn 3: Diwygio Rheoliadau 2003 i ddarparu ar gyfer diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer 1 flwyddyn ysgol arall yn unig (2025/2026) tra bod opsiynau tymor hwy yn cael eu hystyried.

6.2 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y 5 diwrnod HMS presennol yn rhan o strwythur cyflog ac amodau athrawon ac fe'u cynhwysir yn adran Oriau Gwaith dogfen statudol Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru). Fel rheol, mae gofyn i athrawon llawn amser gael eu cyflogi am 195 diwrnod y flwyddyn - ac ni chaiff mwy na 190 ohonynt fod yn ddiwrnodau addysgu disgyblion. Yn draddodiadol, mae’r 5 arall wedi bod yn ddiwrnodau HMS. Mae’n ofynnol hefyd i athrawon weithio’r "cyfryw oriau ychwanegol rhesymol ag y bydd angen eu gweithio o bosibl er mwyn galluogi’r athro i gyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol mewn ffordd effeithiol", er mai’r athro ei hun sy’n penderfynu ar yr oriau hyn.

6.3 Datganolwyd y swyddogaeth o bennu cyflog ac amodau athrawon i Weinidogion Cymru yn 2018, a sefydlwyd proses flynyddol newydd i ystyried cyflog ac amodau athrawon wrth edrych i'r dyfodol. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud yn benodol â chyflawni ein hamcanion polisi o gefnogi ymarferwyr i ddatblygu'r cwricwlwm, diwygio'r system ADY a sicrhau tegwch mewn addysg. Maent yn adlewyrchu ymateb polisi unigol a phenodol i'r angen i sicrhau bod ymarferwyr yn parhau â'u dysgu proffesiynol ac yn cael pob hyfforddiant cyfredol, yn hytrach nag ystyried telerau ac amodau ehangach. Rydym hefyd am sicrhau eglurder ynghylch y newid hwn ac unrhyw newidiadau eraill a gyflwynir ar gyfer athrawon yn benodol o dan nawdd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

### 7. Costau a manteision

**Opsiwn 1: Parhau fel yr ydym.**

7.1 Byddai hyn yn golygu parhau â'r 5 diwrnod HMS a nodir yn nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), a bod ymarferwyr yn ymgymryd â'u dysgu proffesiynol yn ystod yr amser sydd ar gael ar hyn o bryd.

Costau

7.2 Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai ysgolion yn parhau i fod ar agor i ddisgyblion, a byddai angen i ymarferwyr nodi dulliau eraill o gydweithio fel ysgol gyfan ac ar y cyd â phartneriaid.

7.3 Fodd bynnag, mae'r opsiwn hwn yn dod â lefel uchel o risg a chost cyfle yn ei sgil. Os na roddir yr amser ychwanegol y mae ymarferwyr a phenaethiaid wedi mynegi bod ei angen arnynt, yna mae perygl nad yw ymarferwyr yn cael yr hyfforddiant cyfredol, ac na chaiff ein diwygiadau addysg allweddol eu gweithredu. Byddai hyn yn effeithio ar ddarparu cwricwlwm Cymru yn benodol, ac o ganlyniad, ar y canlyniadau i blant a phobl ifanc na fyddant yn elwa'n llawn ar y diwygiadau hyn.

7.4 Mae'n berthnasol bod ysgolion wedi cael cyfanswm o 6 diwrnod HMS dros y 6 blynedd diwethaf. Mae hynny'n cynnwys y diwrnod HMS ychwanegol. Mae'r diwrnod HMS ychwanegol wedi dechrau cael ei ymgorffori yn natblygiad proffesiynol blynyddol athrawon. Os na ddarperir y diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer blwyddyn ysgol 2025/2026, gallai olygu cost gan y byddai angen i ysgolion dalu i ryddhau ymarferwyr i gael yr hyfforddiant ychwanegol hwn yn ystod y tymor ysgol ac ar adegau eraill a neilltuir.

Manteision

7.5 Efallai y byddai'r opsiwn hwn yn arbed cost fach i rieni o gymharu â'r 6 blynedd ysgol ddiwethaf (2019 i 2025), gan y byddai ysgolion yn cadw eu 5 diwrnod HMS presennol y darperir ar eu cyfer gan ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), ac na fyddai plant a phobl ifanc yn colli diwrnod o addysg. Byddai'r gost a arbedir gan rieni yn deillio o beidio â gorfod darparu gofal plant ar gyfer y diwrnod HMS ychwanegol, neu o bosibl golli cyflog yn sgil cymryd diwrnod i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am eu plentyn. Nid yw cadw'r nifer presennol o ddiwrnodau HMS yn cael unrhyw effaith net ar y plant hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan y gall plant barhau i gael prydau ysgol am ddim bob dydd o'u tymor presennol. Mae hyn yn beth cadarnhaol o ran sicrhau bod dysgwyr yn cael pryd iach, maethlon, ac o ran lleihau costau i rieni a fyddai'n gorfod bwydo eu plant gartref fel arall.

7.6 Fodd bynnag, mae'r manteision hyn yn rhai byrdymor iawn, a chredwn fod y cynnydd yn y risg o ran darparu'r cwricwlwm a blaenoriaethau addysg eraill yn gwrthbwyso'r manteision hyn.

**Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau 2003 i ddarparu ar gyfer 1 diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ysgol 2025/2026 a phob**

**blwyddyn ysgol wedi hynny at ddibenion hyfforddi neu gynllunio a pharatoi mewn perthynas â'n diwygiadau addysg allweddol.**

Costau

7.7 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu costau ychwanegol i'r system addysg o ran costau ysgol, gan gynnwys cyflog athrawon a chynorthwywyr addysgu, gan y byddai'n digwydd ar ddiwrnod pan fyddai'r ysgolion wedi bod ar agor i'r disgyblion. Efallai y bydd cost fach yn gysylltiedig â sicrhau bod cynorthwywyr addysgu yn gallu ymuno â'r HMS, ond mae'n anodd mesur hyn gan fod telerau ac amodau cyflogaeth yn wahanol, yn dibynnu ar ardal yr awdurdod lleol a'r rôl a'r cyfrifoldebau.

7.8 Credwn y byddai'r brif effaith ar blant a theuluoedd, yn enwedig y rhai ar incwm is. Wrth ystyried yr opsiynau, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r cyd-destun economaidd presennol, a'r costau byw cynyddol. Byddai effaith fyrdymor ar blant fel grŵp gan y byddai diwrnod ysgol yn cael ei golli i bob un ohonynt. Fodd bynnag, yn y tymor hir byddai'r diwrnod HMS ychwanegol hwn yn ei gwneud yn bosibl darparu'r cwricwlwm newydd a diwygiadau eraill yn llwyddiannus, gan wella safon ac ehangder yr addysg y maent yn ei chael.

7.9 Byddai yna gost, er yn anodd ei mesur, o ran amser ac arian i deuluoedd sy'n gweithio, lle y defnyddir gofal plant neu wyliau blynyddol i ymdopi â diwrnod HMS ychwanegol. Er y bydd rhai pobl yn gallu manteisio ar gymorth aelodau'r teulu ar gyfer gofal plant, gwyddom y byddai angen i rieni/gofalwyr eraill dalu am y gofal plant ychwanegol hwn. Mae'r diwrnodau ychwanegol wedi bod ar waith ers 2019, er y gallai'r pandemig fod wedi lleihau'r effaith oherwydd bod mwy o rieni/gofalwyr yn gweithio gartref neu'n gweithio'n hyblyg.

7.10 Mae'r data ar gost gofal plant cofrestredig ac anghofrestredig, yn ystod y tymor ysgol a chyfnodau gwyliau, yn gyfyngedig. Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o'r sector gofal plant yng Nghymru (2018) yn disgrifio rhai o'r cyfyngiadau hyn mewn ffynonellau data gwahanol.

7.11 Gellir casglu gwybodaeth ychwanegol drwy Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, a gaiff eu cwblhau gan awdurdodau lleol bob 5 mlynedd. Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr rannu eu cyfraddau ag awdurdodau lleol, ond mae'r Asesiadau Digonolrwydd yn dangos amrywiad sylweddol mewn costau rhwng y rhai sydd wedi gwneud hynny. Mae Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant hefyd yn cael eu llywio gan arolwg o rieni a gynhelir ar raddfa eang, ac mae data arolwg rhieni asesiad 2022 yn dangos amrywiad sylweddol mewn costau, fel arfer yn amrywio o £10 i £200 yr wythnos. Mae'r ystod hon yn seiliedig ar wahaniaethau yn yr oriau gofal plant a ddefnyddir yn ogystal â gwahaniaethau yng nghostau darparwyr.

7.12 Cymhlethir y darlun hwn ymhellach o gofio bod y dystiolaeth yn dangos bod y galw am ofal plant y telir amdano yn amrywio'n sylweddol yn

ddaearyddol, yn ôl oedran y plant, a statws cyflogaeth y rhieni (gweler er enghraifft ddata Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n dangos amrywiadau). Ar ben hynny, gall gofal plant ffurfiol ad hoc fod yn anodd dod o hyd iddo a'i sicrhau. Mae diwrnodau HMS, yn eu hanfod, yn digwydd yn ystod y tymor ysgol, ac er y gallant ddigwydd yn union cyn neu ar ôl gwyliau ysgol, yn ôl pob tebyg ni fydd clybiau gwyliau ar gael. Yn ogystal â defnyddio clybiau gwyliau, gall rhieni ddefnyddio clybiau gweithgareddau fel gofal plant de facto hefyd, sy'n ystumio data ar y galw am ofal plant ffurfiol ymhellach.

7.13 Mae'n anoddach lliniaru'r effaith ar deuluoedd incwm is lle mae'r ddau riant/gofalwr yn gweithio, ond mae yna rai camau y gallwn eu cymryd i geisio lleihau'r effaith. Y cyngor i ysgolion fyddai ystyried amseriad y diwrnod yn ofalus er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar rieni/gofalwyr, er enghraifft drwy ei ychwanegu at wyliau hanner tymor. Yn ogystal, byddai ysgolion yn cael eu cynghori i roi cymaint o rybudd â phosibl i rieni/gofalwyr am ddiwrnodau HMS sydd ar y gweill er mwyn rhoi amser iddynt wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol.

7.14 Yn ogystal â chostau gofal plant posibl, mae ychwanegu diwrnod HMS ychwanegol yn golygu nad yw dysgwyr mewn lleoliadau cynradd yn gallu cael pryd ysgol iach, maethlon am ddim y diwrnod hwnnw. I rai dysgwyr, efallai mai hwn yw'r unig bryd poeth, cytbwys sydd ar gael iddynt yn ystod y diwrnod. Mae hefyd yn trosglwyddo'r gost o ddarparu pryd bwyd yn ôl i'r teulu ar y diwrnodau hynny, a allai gael effaith, yn enwedig yng nghyd-destun costau byw cynyddol.

7.15 Fodd bynnag, mae'r newid yn y polisi prydau ysgol am ddim wedi effeithio'n gadarnhaol ar y rhan fwyaf o aelwydydd sydd â phlant cynradd. Credwn felly fod ymdrechion wedi'u gwneud i negyddu costau i deuluoedd yn gyffredinol, ac na fyddai cael diwrnod HMS ychwanegol yn effeithio'n negyddol ar gostau bwyd cyffredinol teuluoedd.

7.16 Ar y cyfan, felly, mae'r manteision i addysg dysgwyr yn sgil cyflwyno'r diwrnod HMS ychwanegol yn fwy sylweddol nag effaith peidio â chael mynediad at ddarpariaeth bwyd am 1 diwrnod o 190 diwrnod ysgol (yn ychwanegol at y 5 diwrnod HMS presennol).

7.17 Bwriad y cynnig yw effeithio'n gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc, gan sicrhau bod eu hathrawon a'r rhai sy'n arwain eu hysgolion yn barod ac yn hyderus i gyflawni ein diwygiadau addysg. Mae angen cryfhau'r ymdrechion ar draws y system i baratoi ar gyfer y cwricwlwm i Gymru, y diwygiadau i'r system ADY, a sicrhau tegwch mewn addysg, a chryfhau'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r goblygiadau. I'r dysgwyr hynny o gefndiroedd incwm is, byddai rhoi amser i athrawon ymgymryd â hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi a sicrhau dyheadau uchel i bawb yn dod â manteision clir.

7.18 Drwy ddarparu'r HMS ychwanegol, caiff amser pwrpasol ei ddarparu i athrawon ac ysgolion i ymgymryd â chyfleoedd dysgu proffesiynol, a

dylem weld canlyniadau gwell i'n dysgwyr yn y tymor hir. Mae undebau'r gweithlu addysg hefyd wedi galw am roi mwy o amser i ymarferwyr ar gyfer dysgu proffesiynol.

7.19 Gall colli strwythur y diwrnod ysgol neu gymorth ychwanegol effeithio'n fwy sylweddol ar blant a phobl ifanc sydd ag ADY, neu'r rhai sy'n byw mewn tlodi, neu sy'n cael profiadau niweidiol gartref yn ystod eu plentyndod.

7.20 Mae'r data ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion yn ystod blwyddyn ysgol 2024-25 yn dangos gwelliant bach yn y cyfartaledd cenedlaethol.[1] Fodd bynnag, mae'r lefelau absenoldeb cyson wedi tyfu o gymharu â'r data yn 2018/19. O blith y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson yn 2023/24, roedd 53.3% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gallai hyn fod yn ystyriaeth wrth ychwanegu diwrnod HMS ychwanegol at galendr yr ysgol.

7.21 Mae'n amhosibl asesu a yw colli diwrnod ysgol at ddibenion HMS yn cael effaith negyddol ar batrymau presenoldeb cyffredinol ymhlith dysgwyr. Bydd canlyniadau negyddol fel arfer yn gysylltiedig ag absenoldebau hirdymor a chyson. Mewn gwirionedd, bydd llawer o ddysgwyr hŷn yn defnyddio'r diwrnodau HMS hyn i ddysgu'n annibynnol, sy'n ganlyniad cadarnhaol.

7.22 Efallai y bydd rhai costau gweinyddol, i'w hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru, yn ymwneud â datblygu adnoddau i ysgolion eu defnyddio yn ystod y diwrnod HMS ychwanegol. Byddai unrhyw gostau sy’n gysylltiedig â datblygu deunyddiau penodol ar gyfer y diwrnodau HMS yn cael eu talu o gyllidebau presennol Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o sefydlu Corff Cymorth Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Cenedlaethol, a fydd yn ysgwyddo costau datblygu adnoddau yn y dyfodol, a ariennir o gyllidebau Llywodraeth Cymru.

7.23 Efallai y bydd rhywfaint o arbedion i ysgolion mewn perthynas â chostau teithio rhwng y cartref a'r ysgol.

Manteision

7.24 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa sydd wedi’i wreiddio mewn ymchwil sy’n seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio effeithiol. Cefnogir hyn gan fuddsoddiad blynyddol o dros £35 miliwn mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr addysg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

7.25 Er mwyn cyflawni ein cydymrwymiad cenedlaethol i drawsnewid addysg yng Nghymru go iawn, mae'n hanfodol bod ymarferwyr addysg yn cael eu

[1] Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 2 Medi 2024 i 25 Ebrill 2025 | LLYW.CYMRU

cefnogi yn eu dysgu proffesiynol a'u datblygiad gydol eu gyrfa. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r Hawl Genedlaethol i Ddysgu Proffesiynol sy'n nodi ein disgwyliadau clir o'r hyn y dylai pob gweithiwr proffesiynol yng Nghymru fod â hawl iddo. Mae'r Hawl yn nodi'r modd y bydd datblygiad parhaus ymarferwyr yn helpu'r ysgolion neu'r lleoliadau y maent yn gweithio ynddynt, ynghyd â'u dysgwyr, i wireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru, gan gefnogi dysgwyr sydd ag ADY, ac ymgorffori tegwch, lles a'r Gymraeg ym mhob rhan o gymuned yr ysgol. Byddai'r diwrnod HMS ychwanegol felly yn cyd-fynd â'r Hawl Genedlaethol i Ddysgu Proffesiynol.

7.26 Fel y nodir ym mharagraff 4.8, mae adroddiadau diweddar yn darparu tystiolaeth o'r angen parhaus am ddiwrnod HMS ychwanegol. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil annibynnol pellach wedi'i gomisiynu er mwyn deall effaith y diwrnod HMS ychwanegol yn well.

**Opsiwn 3 - Diwygio Rheoliadau 2003 i ddarparu ar gyfer diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer 1 flwyddyn ysgol arall yn unig (2025/2026) tra bod opsiynau tymor hwy yn cael eu hystyried**

**Costau**

7.27 Mewn modd tebyg i opsiwn 2, ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu costau ychwanegol i'r system addysg o ran costau ysgol, a chyflog athrawon a chynorthwywyr addysgu, gan y byddai'r diwrnodau HMS ychwanegol yn digwydd ar ddiwrnodau pan fyddai ysgolion wedi bod ar agor i'r disgyblion.

7.28 Mae llawer o'r un ystyriaethau â'r rhai a nodir uchod yn berthnasol i'r opsiwn hwn, ond i raddau llai, gan mai am 1 flwyddyn ysgol yn unig y byddai'n digwydd.

**Manteision**

7.29 Mewn modd tebyg i opsiwn 2, byddai darparu'r diwrnod HMS ychwanegol am flwyddyn ysgol arall yn cefnogi ymarferwyr addysg yn eu dysgu proffesiynol a'u datblygiad gydol gyrfa, gyda'r bwriad o wella canlyniadau i ddysgwyr. Mae adroddiadau diweddar yn darparu tystiolaeth o'r angen parhaus am ddiwrnod HMS ychwanegol, ac mae gwaith ymchwil annibynnol pellach wedi'i gomisiynu er mwyn deall effaith y diwrnod HMS ychwanegol yn well.

**Canlyniad**

7.30 Ar ôl pwyso a mesur y costau a'r manteision, yr opsiwn a ddewiswyd oedd opsiwn 3; defnyddio is-ddeddfwriaeth i ddarparu 1 diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer blwyddyn ysgol 2025/26.

7.31 Mae adroddiadau diweddar yn darparu digon o dystiolaeth dros barhau â'r diwrnod HMS ychwanegol am flwyddyn arall, gan ei bod yn dal yn

ddyddiau cynnar o ran gweithredu ein diwygiadau allweddol. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o dystiolaeth i wneud y diwrnod HMS ychwanegol yn barhaol (h.y. i ddarparu ar gyfer blwyddyn ysgol 2025/2026 a phob blwyddyn ysgol wedi hynny) ac mae wedi comisiynu gwaith ymchwil annibynnol i gefnogi cynigion tymor hwy. Mae digon o wybodaeth i ddod i'r casgliad bod budd i ddarparu diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer blwyddyn ysgol 2025/2026, ond byddai angen cynnal gwerthusiad pellach cyn gwneud penderfyniad ynghylch blynyddoedd ysgol dilynol.

## 8. Asesu'r Gystadleuaeth

8.1 Amherthnasol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Mae hyn yn ymwneud â newid deddfwriaethol tymor byr ar gyfer blwyddyn ysgol 2025/26. Fel y nodir uchod, mae rhagor o ymchwil annibynnol wedi'i gomisiynu i ddeall effaith y diwrnod HMS ychwanegol; mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Plant yng Nghymru i ddeall yr effaith ar ddysgu, ac ar hyn o bryd mae Estyn yn cynnal adolygiad thematig ar Addysgu yng Nghyd-destun Cwricwlwm Cymru. Bydd y dystiolaeth bellach hon yn llywio'r adolygiad ar ôl gweithredu ac unrhyw gynigion yn y dyfodol.